# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

## Cofnodion (EL(3) 19-08)

**Dyddiad: 3 Gorffennaf 2008**
**Amser: 13:30 - 15:30**
**Lleoliad: Ystafell bwyllgora 3, y Senedd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Gareth Jones, (Cadeirydd) Aberconwy
Alun Cairns, Canol De Cymru
Jeff Cuthbert, Caerffili
Huw Lewis, Merthyr Tudful a Rhymni
David Melding, Canol De Cymru
Janet Ryder, Gogledd Cymru
Kirsty Williams, Brycheiniog a Sir Faesyfed

### Y Gwasanaeth Pwyllgorau

Dr Kathryn Jenkins, Clerc}
Daniel Collier, Dirprwy Glerc

### Arbenigwr y Pwyllgor

Gareth Clubb, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

#### Cynghorwyr Cyfreithiol

Gwyn Griffiths, Gwasanaethau Cyfreithiol
Susan Morgan, Gwasanaethau Cyfreithiol

### Eraill yn bresennol

Lee Waters, Cyfarwyddwr, Sustrans Cymru
Angharad Davies, Pennaeth Materion Cyhoeddus a Pholisi, BT yng Nghymru
Huw Roberts, Cyfarwyddwr Materion Cymreig, Grŵp y Post Brenhinol

### 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau oddi wrth Christine Chapman, Sandy Mewies, ac Andrew RT Davies ac 'roedd Alun Cairns yn dirprwyo yn ei le yntau.

### 2: Ymdrin â Deisebau
### Papurau: EL(3) 19-08 - Papur 1, Atodiad 1, EL(3) 19-08 - Papur 2

#### Ymdrin arfaethedig â deisebau

2.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod cynigion ar gyfer ymdrin â deisebau.

2.2 Byddai'r Pwyllgor yn gofyn am gyfarfod gyda'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i ofyn a fyddai'n defnyddio'i grym i sicrhau newid enw Ysgol Gartholwg/Rhydfelen.

2.3 Cymeradwyodd y Pwyllgor gamau'r Cadeirydd a chytuno i gefnogi gwaith yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ar ddeiseb Gweithredu gan Ysgolion Cymunedol Powys.

2.3 Penderfynodd y Pwyllgor wahodd y deisebwyr a phrif ddeiliaid diddordeb i ddarparu tystiolaeth ar y ddeiseb 'Pride in Barry' mewn gwrandawiad ffurfiol o'r Pwyllgor sydd i'w gynnal yn y Barri yn ystod tymor yr hydref.

2.4 Cytunodd y Pwyllgor i ethol grŵp rapporteur i dderbyn tystiolaeth ar y ddeiseb Prisiau Tanwydd a chyflwyno adroddiad ar ei ganfyddiadau i'r Pwyllgor. Etholwyd Janet Ryder, David Melding, Kirsty Williams gan y Pwyllgor; byddai cais i gael Aelod o'r Grŵp Llafur os yn bosibl.

#### Sustrans

2.5 Croesawodd y Pwyllgor  Lee Waters, Cyfarwyddwr, Sustrans Cymru; Huw Roberts, Cyfarwyddwr Materion Cymreig, Grŵp y Post

Brenhinol; Angharad Davies, Pennaeth Materion Cyhoeddus a Pholisi, BT yng Nghymru.

2.6 Holodd y Pwyllgor y tystion yn fanwl ar y ddeiseb i ddatblygu a chynnal rhwydwaith o lwybrau di-draffig i'w defnyddio a'u rhannu.

2.7 Croesawodd y Pwyllgor yr awgrymiadau yn y ddeiseb ac yn dilyn trafodaeth fanwl cytunodd i ddwyn ymlaen Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol i wneud darpariaeth ar gyfer fframwaith cyfreithiol i ddatblygu a chynnal rhwydwaith o lwybrau di-draffig i'w defnyddio a'u rhannu yng Nghymru. Byddai'r Pwyllgor yn derbyn rhagor o dystiolaeth cyn drafftio deddfwriaeth.

Sesiwn breifat

Penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi).

### 3: Cyfraniad Economaidd Addysg Uwch yng Nghymru - casgliadau ac argymhellion sy'n dod i'r amlwg

3.1 Soniodd y Pwyllgor am y casgliadau a'r argymhellion sy'n dod i'r amlwg yn dilyn ymchwiliad y Pwyllgor i Gyfraniad Economaidd Addysg Uwch yng Nghymru.

### 4: Gwerthuso gwaith y Pwyllgor yn 2007-2008

4.1 Bu'r Pwyllgor yn gwerthuso'i waith yn ystod blwyddyn gyntaf y Trydydd Cynulliad.

**Papur i'w nodi:**

### Cofnodion y cyfarfod diwethaf
### Papur: EL(3) 18-08 - Cofnodion

Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 19 Mehefin.

**Y Gwasanaeth Pwyllgorau**
**Gorffennaf 2008**